# <u>Hysbysiad Tyrau Oeri a Chyddwyswyr Anweddol</u>

Dan ddarpariaethau Rheoliadau Hysbysiad Tyrau Oeri a Chyddwyswyr Anweddol 1992, a ddaeth i rym ar 2 Tachwedd 1992, mae gan bob unigolyn sydd ag unrhyw raddau o reolaeth dros eiddo, gyfrifoldeb dros sicrhau na leolir unrhyw “ddyfais hysbysadwy” ar yr eiddo hwnnw oni bai yr hysbyswyd yr awdurdod lleol y mae’r eiddo yn ei ardal, yn ysgrifenedig o'r wybodaeth a nodir yn yr Atodlen i’r Rheoliadau hyn.

Prif ddiben hyn yw nodi meysydd posibl a allai arwain at achosion o glefydau heintus, e.e. *legionella* a sicrhau bod mesurau ataliol yn cael eu cymryd i waredu heintiau sy’n gallu effeithio ar weithwyr a’r cyhoedd.

Mae “dyfais hysbysadwy” yn golygu tŵr oeri neu gyddwyswr anweddol ac eithrio;

(a) pan na fydd yn cynnwys unrhyw ddŵr sy’n cyrraedd yr aer; a
(b) phan na fydd ei gyflenwad dŵr wedi’i gysylltu; a
(c) phan na fydd ei gyflenwad trydan wedi’i gysylltu;

Mae “eiddo” yn golygu yr holl eiddo annomestig a ddefnyddir ar gyfer neu mewn cysylltiad â gweithredu masnach, busnes neu weithgarwch arall (boed hynny am elw neu beidio).

Yn y Rheoliadau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall;

Mae “tŵr oeri” yn golygu dyfais y mae ei brif ddibenion yn ymwneud ag oeri dŵr trwy gyfrwng cyswllt uniongyrchol rhwng y dŵr hwnnw a ffrwd o aer;

Mae “cyddwyswr anweddol” yn golygu dyfais y mae ei brif ddibenion yn ymwneud ag oeri hylif trwy basio’r hylif hwnnw trwy gyfnewidiwr gwres, sy’n cael ei oeri trwy gael cyswllt gyda dŵr sy’n pasio trwy ffrwd o aer’

Mae “cyfnewidiwr gwres” yn golygu dyfais sy’n trosglwyddo gwres rhwng hylifau, nad oes cyswllt uniongyrchol rhyngddynt.

Mae’r wybodaeth y mae’n rhaid ei chyfleu i’r awdurdod lleol fel a ganlyn:

1. Cyfeiriad yr eiddo lle y lleolir y ddyfais hysbysadwy.
2. Enw, cyfeiriad a rhif ffôn unigolyn sydd i unrhyw raddau, â rheolaeth dros yr eiddo y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 1 uchod.
3. Nifer y dyfeisiau hysbysadwy yn yr eiddo y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 1 uchod.
4. Lleoliad pob dyfais hysbysadwy yn yr eiddo y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 3 uchod.

Cysylltwch ag: Adain Diogelu’r Amgylchedd

Ffôn: (01545) 572105

E-bost: envhealth@ceredigion.gov.uk